

mewn tomen o adroddiadau archaeolegol ac hynafiaethol sy'n gyfrifol am eu hesgeulustod gan y Cymry hyd yn hyn.

Bu farw Syr John Gardner Wilkinson ar 29ain Hydref 1875 yn nhy ei chwaer yng nghyfraith Maria yn Llanymddyfri, a'i gladdu ar Dachwedd 3ydd ym mynwent Eglwys Llandingad yn yr un dref – peth digon priodol ac ystyried fod cryn ugain o'r lluniau dyfrlliw sydd yn y casgliad yn portreadu golygfeydd yn yr ardal honno.

[Rwy'n dra diolchgar i awdurdodau Llyfrgell Bodley, Prifysgol Rhydychen am hwyluso fy astudiaeth o ddeunydd Syr John Gardner Wilkinson ac am ganiatâd i gyhoeddi enghreifftiau o'i waith yma.

Daw'r lluniau a gynhwysir yn yr erthygl hon o MS Wilkinson dep. 28, ffol. 28 a 51 (llun 1,2) ac o MS Wilkinson dep. 36, ffol. 19v-20r (llun 3).]

R. Elwyn Hughes



Llun 3: Eisteddfod Caer, 1858

DARLITH FLYNYDDOL CYMDEITHAS BOB OWEN 2005

Darlithydd: **J. Elwyn Hughes**

Teitl y Ddarlith: **Bro Caradog Prichard
trwy luniau**

Cadeirydd: **E. Wyn James**

Man: **Y Stiwdio ar faes y Brifwyl**

Amser: **Dydd Mercher, Awst 3ydd,
am 2.30 y prynhawn**